COP 3 12.13 Y Llys Gwarchod

# Asesu galluedd

| At ddibenion y swyddfa'n unig |
| --- |
| Dyddiad derbyn |
| Rhif yr achos |
| |

Enw llawn yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef
(dyma enw'r unigolyn nad oes ganddo alluedd, neu yr honnir nad oes ganddo alluedd)

---

**Darllenwch hwn i ddechrau**

- Os ydych chi'n gwneud cais i gychwyn achos gyda'r llys, rhaid ichi ei ffeilio'r ffurflen hon gyda'ch ffurflen gais COP1. Rhaid i'r asesiad gynnwys gwybodaeth gyfredol.
- Rhaid ichi lenwi Rhan A y ffurflen hon.
- Mae angen ichi wedyn roi'r ffurflen â Rhan A wedi'i llenwi i'r ymarferydd a fydd yn llenwi Rhan B. Bydd yr ymarferydd yn dychwelyd y ffurflen i chi neu eich cyfreithiwr ar gyfer ei ffeilio gyda'r llys.
- Gall yr ymarferydd fod yn:
  - ymarferydd meddygol cofrestredig, er enghraifft meddyg teulu'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef;
  - seiciatrydd cofrestredig
  - gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy cofrestredig
  - gweithiwr cymdeithasol cofrestredig
  - seicolegydd cofrestredig
  - nyrs gofrestredig, neu
  - therapydd galwedigaethol cofrestredig

  sydd wedi archwilio ac asesu galluedd yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol i therapydd cofrestredig, fel therapydd lleferydd neu therapydd galwedigaethol, lenwi'r ffurflen.
- Pan fydd y ffurflen wedi cael ei llenwi, bydd ei chynnwys yn gyfrinachol i'r llys a'r rheini sydd wedi'u hawdurdodi gan y llys i'w gweld, megis partïon yn yr achos.
- Defnyddiwch ddalen bapur ar wahân i barhau os oes angen mwy o le arnoch i ateb cwestiwn. Ysgrifennwch eich enw chi, enw a dyddiad geni'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef a rhif y cwestiwn rydych yn ei ateb ar bob dalen ar wahân.
- Mae rhagor o nodiadau canllaw ar ddiwedd y ffurflen hon.
- Os oes angen help arnoch chi i lenwi'r ffurflen hon, ewch i'r wefan, www.gov.uk/court-of-protection, i gael rhagor o arweiniad neu wybodaeth, neu cysylltwch â Gwasanaeth Ymholiadau'r Llys ar 0300 456 4600 neu courtofprotectionenquiries@hmcts.gsi.gov.uk
- Ni chaiff staff y Llys Gwarchod roi cyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, cysylltwch â chyfreithiwr.
- Paratowyd y ffurflen hon mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, Coleg Brenhinol y Meddygon, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a'r Adran Iechyd.

© Hawlfraint y Goron 2013

## Rhan A - I'w lenwi gan y ceisydd

### Adran 1 – Eich manylion chi (y ceisydd)

1.1 Eich manylion ☑ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall ________

| | |
|---|---|
| Enw cyntaf | |
| Enw(au) canol | |
| Cyfenw | |

1.2 Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

Rhif ffôn

| | |
|---|---|
| Dydd | |
| Gyda'r nos | |
| Symudol | |

Cyfeiriad e-bost

1.3 A oes cyfreithiwr yn eich cynrychioli chi? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion y cyfreithiwr.

Enw

Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif ffôn | | Rhif ffacs | |
| Rhif DX | | | |
| Cyfeiriad e-bost | | | |

1.4 I ba gyfeiriad ddylai'r ymarferydd ddychwelyd y ffurflen pan fydd wedi llenwi Adran 2?

☐ Eich cyfeiriad chi

☐ Cyfeiriad y cyfreithiwr

☐ Cyfeiriad arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda)

## Adran 2 – Yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef (yr unigolyn sydd i'w asesu gan yr ymarferydd)

2.1 ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall ________

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

Cyfeiriad
(gan gynnwys
y cod post)

Rhif ffôn

Dyddiad geni ☐☐ | ☐☐ | ☐☐☐☐ ☐ Gwryw ☐ Benyw

## Adran 3 - Ynghylch y cais hwn

3.1 Nodwch y mater yr ydych yn gofyn i'r llys wneud penderfyniad yn ei gylch. **(gweler nodyn 1)**

3.2 Pa orchymyn yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud?

3.3 Sut fyddai'r gorchymyn o fudd i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef?

3.4 Beth yw eich perthynas neu eich cysylltiad â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef?

## Adran 4 – Rhagor o Wybodaeth

Darperwch unrhyw wybodaeth bellach ynghylch amgylchiadau'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef a fyddai'n ddefnyddiol i'r ymarferydd wrth asesu ei alluedd i wneud unrhyw benderfyniad(au) sy'n destun eich cais **(gweler nodyn 2)**

**Yn awr darllenwch nodyn 3 ynghylch beth i'w wneud nesaf.**

## Rhan B - I'w lenwi gan yr ymarferydd

### Adran 5 – Eich manylion (yr ymarferydd)

5.1 ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Dr. ☐ Arall ________

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

5.2 Natur eich perthynas broffesiynol â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef (Er enghraifft, gweithiwr cymdeithasol neu feddyg teulu)

5.3 Nodwch eich cymwysterau proffesiynol a'ch profiad ymarferol gan gyfeirio'n benodol at wneud asesiadau o alluedd yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig.

Os oes gwybodaeth nad ydych am ei darparu yn y ffurflen hon oherwydd ei natur sensitif, gallwch ddarparu'r wybodaeth yn uniongyrchol i'r llys.

6.1 Ydych chi'n darparu unrhyw wybodaeth sensitif yn uniongyrchol i'r llys? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Darperwch y wybodaeth yn ysgrifenedig i:

Y Llys Gwarchod
PO Box 70185
First Avenue House
42-49 High Holborn
Llundain WC1A 9JA

DX 160013
Kingsway 7

Rhowch eich enw a'ch manylion cyswllt chi, ac enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ar unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei darparu ar wahân i'r llys.

## Adran 7 – Asesu galluedd

7.1 Mae gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef y nam canlynol ar ei feddwl neu ei ymennydd, neu'r anhwylder canlynol sy'n effeithio ar y modd y mae ei feddwl neu ei ymennydd yn gweithio. Os yw'r nam neu'r anhwylder hwn yn codi o ddiagnosis penodol, nodwch y diagnosis yma: **(gweler nodyn 4)**

Mae hyn wedi para ers:

O ganlyniad, nid yw'r unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun mewn perthynas â'r mater(ion) dan sylw:

7.2 Nid yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn gallu gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater perthnasol oherwydd: **(gweler nodyn 5)**

- [ ] ei anallu i ddeall y wybodaeth berthnasol ganlynol (nodwch y manylion os gwelwch yn dda);

**a/neu**

- [ ] ei anallu i gofio'r wybodaeth berthnasol ganlynol (nodwch y manylion os gwelwch yn dda);

**a/neu**

- [ ] ei anallu i ddefnyddio neu bwyso a mesur y wybodaeth berthnasol ganlynol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniad(au) (rhowch fanylion os gwelwch yn dda);

**a/neu**

- [ ] ei anallu i roi gwybod am ei benderfyniad(au) mewn unrhyw ffordd (rhowch fanylion os gwelwch yn dda),

7.3 Seilir fy marn ar y dystiolaeth ganlynol o ddiffyg galluedd:

7.4 Atebwch un ai (a) **neu** (b).

(a) Rwyf wedi bod yn ymarferydd i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ers

yn perthyn ers | | | | | | | | | a'r tro diwethaf i mi ei asesu

oedd ar | | | | | | | | |

(b) Bu imi asesu'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud

ag ef ar | | | | | | | | |

yn dilyn atgyfeiriad gan:

7.5 Ydy'r unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef wedi eich gwneud yn ymwybodol o unrhyw safbwyntiau sydd ganddo mewn perthynas â'r mater perthnasol? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os Ydy, rhowch fanylion.

7.6 Ydych chi o'r farn bod posibilrwydd y gallai'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef adennill neu gael galluedd yn y dyfodol mewn perthynas â'r penderfyniad y mae'r cais yn ymwneud ag ef? **(gweler nodyn 6)**

☐ Ydw – nodwch paham os gwelwch yn dda ac amcangyfrif ynghylch pa bryd gallai hyn ddigwydd.

☐ Nac ydw – nodwch paham os gwelwch yn dda.

7.7 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw un sydd â barn wahanol ynghylch galluedd yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion.

7.8 A oes gennych chi, eich teulu neu eich cyfeillion unrhyw fuddiant (ariannol neu fel arall) mewn unrhyw fater yn ymwneud â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion.

7.9 A oes gennych sylwadau cyffredinol neu unrhyw argymhellion eraill ynglŷn â gofal i'r dyfodol? **(gweler nodyn 7)**

**Llofnod**

**Enw** **Dyddiad**

**Yn awr darllenwch nodyn 8 ynghylch beth i'w wneud nesaf.**

## Nodiadau canllaw

**Nodyn 1**

### Ynghylch y cais

Ailadroddir y cwestiynau hyn ar y ffurflen gais COP1. Copïwch eich atebion oddi ar ffurflen COP1 er mwyn i'r wybodaeth fod yr un fath ar y ddwy ffurflen.

**Nodyn 2**

### Rhagor o wybodaeth

Darperwch unrhyw wybodaeth bellach ynghylch amgylchiadau'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef a fyddai'n berthnasol wrth asesu ei alluedd. Er enghraifft, os yw eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol, byddai'n ddefnyddiol i'r ymarferydd wybod amgylchiadau ariannol cyffredinol yr unigolyn dan sylw. Bydd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r ymarferydd i werthuso cyfrifoldeb yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef o ran gwneud penderfyniadau, a gallai helpu'r ymarferydd i ddod i benderfyniad ynghylch a all y person hwnnw wneud y penderfyniad(au) dan sylw ai peidio.

**Nodyn 3**

### Beth i'w wneud nesaf

Rhowch y ffurflen hon i'r ymarferydd a fydd yn llenwi Rhan B.

Bydd yr ymarferydd yn dychwelyd y ffurflen i chi neu i'ch cyfreithiwr pan fydd wedi llenwi Rhan B. Wedyn bydd angen i chi ffeilio'r ffurflen gyda'r llys ynghyd â'r ffurflen gais COP1 ac unrhyw wybodaeth arall a fynnir gan y llys. Gweler nodyn 8 ar y ffurflen COP1 i gael rhagor o wybodaeth.

**Nodyn 4**

### Asesu galluedd

At ddibenion Deddf Galluedd Meddyliol 2005, nid oes gan unigolyn alluedd os na all, ar amser pan mae angen gwneud penderfyniad, wneud neu roi gwybod am benderfyniad oherwydd nam ar y meddwl neu'r ymennydd neu os oes anhwylder ganddo sy'n effeithio ar y modd y mae'r meddwl neu'r ymennydd yn gweithio.

Mae'r ddeddf yn cynnwys prawf galluedd dau gam:

1. A oes nam ar feddwl neu ymennydd yr unigolyn neu a oes rhyw fath o anhwylder sy'n effeithio ar y modd y mae ei feddwl neu ei ymennydd yn gweithio?
2. Os oes, a yw'r nam neu'r anhwylder hwnnw'n ddigon i olygu nad oes gan yr unigolyn alluedd i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater dan sylw?

Cyfeiriwch at Ran A y ffurflen hon lle mae'r ceisydd wedi nodi manylion y cais a gwybodaeth berthnasol ynghylch amgylchiadau'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Yn benodol, mae adran 3.1 yn nodi'r mater y mae'r ceisydd yn gofyn i'r llys wneud penderfyniad yn ei gylch.

Rhaid seilio'r asesiad o alluedd ar allu'r unigolyn i wneud penderfyniad ynghylch mater perthnasol, ac nid ar ei allu i wneud penderfyniadau'n gyffredinol. Felly, nid oes wahaniaeth os yw'r diffyg galluedd yn rhywbeth dros dro, os yw'r unigolyn yn cadw'r gallu i wneud penderfyniadau eraill, neu os bydd galluedd yr unigolyn yn amrywio.

Dan y Ddeddf, ystyrir bod unigolyn yn analluog i wneud penderfyniad os na all:

- ddeall gwybodaeth am y penderfyniad sydd i gael ei wneud;
- cofio'r wybodaeth honno;
- defnyddio neu bwyso a mesur y wybodaeth fel rhan o'r broses gwneud penderfyniad; neu
- rhoi gwybod am y penderfyniad (mewn unrhyw fodd).

Ni ellir sefydlu diffyg galluedd drwy gyfeirio at oedran neu wedd/ymddangosiad unigolyn yn unig, na chwaith at gyflwr penodol neu agwedd ar ymddygiad. Ni ddylid trin unigolyn fel un na all wneud penderfyniad dim ond am ei fod wedi gwneud penderfyniad annoeth.

Nid yw'r prawf galluedd yr un fath â'r prawf ar gyfer cadw'n gaeth a thrin dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae llawer o bobl a gwmpasir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Ar y llaw arall, ni fydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn effeithio byth ar y rhan fwyaf o bobl sydd heb alluedd i wneud penderfyniadau.

Mae gofyn i ymarferwyr ystyried Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r Cod Ymarfer ar gael ar-lein yn www.gov.uk/court-of-protection. Mae copïau caled ar gael o'r Llyfrfa, am dâl, drwy:

- ffonio 0870 600 5522;
- e-bostio customerservices@tso.co.uk; or
- archebu ar-lein www.tsoshop.co.uk.

Am gyngor pellach gweler (er enghraifft):

- Making Decisions: A guide for people who work in health and social care (2il argraffiad), Rhaglen Weithredu Galluedd Meddyliol, 2007.
- Assessment of Mental Capacity: Guidance for Doctors and Lawyers (2nd edition), British Medical Association and Law Society (London: BMJ Books, 2004)

**Nodyn 5**

### Galluedd i wneud y penderfyniad dan sylw

Rhowch ein barn am natur y diffyg galluedd a'r rhesymau y mae'n seiliedig arnynt. Mae hyn yn galw am ddiagnosis a datganiad yn rhoi tystiolaeth glir nad oes gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef alluedd i wneud y penderfyniad(au) sy'n berthnasol i'r cais. Mae'n bwysig bod y dystiolaeth o ddiffyg galluedd yn dangos sut y mae hyn yn atal yr unigolyn dan sylw rhag gallu gwneud penderfyniad(au).

**Nodyn 6**

### Y posibilrwydd o adennill neu gaffael galluedd

Wrth ddod i unrhyw benderfyniad rhaid i'r llys ddefnyddio'r egwyddorion a nodir yn y Ddeddf ac, yn fwyaf arbennig, rhaid iddo wneud penderfyniad er lles gorau'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Byddai felly o gymorth i'r llys pe gallech nodi a yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn debygol o adennill neu gaffael galluedd a fyddai'n ddigonol i allu gwneud penderfyniadau yng nghyswllt y mater perthnasol.

**Nodyn 7**

### Sylwadau cyffredinol

Gall y llys wneud unrhyw orchymyn a ystyrir yn briodol ganddo hyd yn oed os nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi'i nodi yn y ffurflen gais. Lle bo modd, bydd y llys yn gwneud un penderfyniad yn hytrach na phenodi dirprwy gyda phŵer parhaus i wneud penderfyniadau. Os credwch y byddai gorchymyn gwahanol i'r un a geisir gan y ceisydd er lles gorau'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef, rhowch fanylion os gwelwch yn dda, gan gynnwys eich rhesymau.

**Nodyn 8**

### Beth i'w wneud nesaf

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi at y ceisydd neu ei gyfreithiwr, fel y nodir yn adran 1.4. Dylech gadw copi ar gyfer eich cofnodion.